

Gwireddu ein gwerthoedd

Sicrhau bod ein gwerthoedd wrth wraidd
popeth a wnawn



GOFALGAR: rydym yn drugarog ac mae'n hawdd siarad â ni Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym

- Rydym yn canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl, gan gydnabod a hyrwyddo hawliau pobl
- Rydym yn gefnogol ac yn ceisio meithrin cydberthynas â phobl
- Rydym yn cydnabod bod gan bobl sgiliau, safbwyntiau a phrofiadau gwahanol
- Rydym yn ystyried amgylchiadau personol pobl, ac yn sensitif tuag atynt

TEG: rydym yn gyson, yn ddiuedd ac yn gynhwysol Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym

- Rydym yn wrthrychol, yn gymesur ac yn gytbwys
- Rydym yn cydnabod cryfderau yn ogystal ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhagweithiol ym mhob agwedd ar ein gwaith
- Rydym bob amser yn adeiladol pan fyddwn herio eraill
- Rydym yn agored i dderbyn heriau adeiladol ar ein gwaith



UNIONDEB: rydym yn onest ac yn ddibynadwy Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym

- Rydym yn atebol am ein gweithredoedd ac am ansawdd ein gwaith
- Rydym yn cyfathrebu mewn ffordd agored, gywir ac uniongyrchol
- Rydym yn cadw at ein gair wrth weithredu, gan roi eglurhad os na allwn wneud hynny
- Nid ydym yn ofni cyfaddef os na wyddwn yr ateb



PROFFESIYNOL: rydym yn fedrus, yn wybodus ac yn arloesol

Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym

- Rydym yn gwrando'n astud ar bobl
- Rydym yn annog arloesedd ac arferion cadarnhaol ac yn fodlon rhannu'r hyn a wyddwn
- Rydym yn herio ein harferion gwael ein hunain, ac arferion gwael eraill
- Rydym yn parhau i ddysgu, myfyrio a datblygu



PARCH: rydym yn gwrando ar bobl, yn ymgysylltu â nhw ac yn eu gwerthfawrogi

Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym

- Rydym yn gwrtais ac yn barchus, gan drin pobl yn yr un modd yr hoffem ninnau gael ein trin
- Rydym yn ceisio ennyn ymddiriedaeth a hyder pobl, a'u cadw
- Rydym yn ceisio barn a syniadau pobl ac yn croesawu adborth
- Rydym yn sensitif i'r ymdeimlad o gael adborth ac yn sicrhau ein bod bob amser yn adeiladol

